

ECAD6008 2022-23

BA3

Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlithydd: Nia Wyn Evans

n.evans@pcydd.ac.uk

Darlith 2: 24.11.2022

An illustration featuring a person standing on a mountain peak, looking out over a landscape of waterfalls and books. The waterfalls are depicted as white, flowing streams cascading down the sides of the mountains. The books are shown as large, colorful volumes (purple, orange, green) with their pages fanned out, creating a sense of depth and scale. The sky is a light blue with white clouds. The overall style is modern and artistic.

Tric a Chlic – beth nesaf?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Munud i feddwl ...



Pa arferion da allwn ni barhau i'w defnyddio o'r cynllun Tric a Chlic wrth ddatblygu sgiliau darllen unigol ein digyblion?

Beth nesaf?

**Parhau i
ddarllen
grwp**



**Datblygu i
fod yn
ddarllenwr
annibynnol**



Munud i feddwl



Pam 'Darllen Grwp'? Beth ydy'r manteision?



Beth ydy 'Darllen Grwp'?



- Mae **Darllen Grwp** yn ffordd effeithiol iawn o ddatblygu sgiliau darllen disgyblion.
- Rhaid cael disgyblion tebyg eu gallu mewn grwp gyda uchafswm o 6 mewn nifer.
- Bydd yr athro / athrawes / cynorthwydd dosbarth yn arwain y sesiwn.
- Bydd y testun darllen yn **destun anghyfarwydd** i'r disgyblion.
- Yn ystod y sesiwn bydd cyfle am ddarllen unigol, tawel neu / a darllen ar y cyd.
- Wrth ddarllen bydd cyfle i drafod **strategaethau** fydd yn helpu'r disgyblion wrth ddatblygu eu sgiliau darllen.
- Bydd y sesiwn yn para tua 20 munud.
- Cofiwch, bydd **angen paratoi** cwestiynau / gweithgareddau addas o flaen llaw.



Beth ydy manteision 'Darllen Grwp'?

- Mae disgyblion yn darllen testun sydd yn addas ar gyfer eu lefel darllen bersonol.
- Mae 'Darllen Grwp' yn rhoi cyfle i ddisgyblion fagu hyder mewn darllen.
- Mae 'Darllen Grwp' yn rhoi amser a chyfle i drafod a chynnig **strategaethau** gwahanol wrth ddatblygu sgiliau darllen.
- Mae 'Darllen Grwp' yn rhoi cyfle i ddisgyblion fwynhau llyfrau / testun darllen.
- **Mae 'Darllen Grwp' yn datblygu sgiliau Llafar, Gwrando a Darllen y disgyblion.**



Estyn



Caffael yr iaith Gymraeg

Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr

Mawrth 2021

estyn.llyw.cymru

- 33** Mewn llawer o ysgolion effeithiol, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 gynnydd cryf yn eu medrau darllen. Yn aml, maent yn gwneud hynny â chymorth gan ymarferwyr, sy'n gwrando arnynt yn darllen ac yn eu hannog i ddefnyddio strategaethau darllen i fynd i'r afael â thestunau anghyfarwydd neu heriol. Yn aml, mae dysgwyr yn cyd-ddarllen testun ehangach ac yn mwynhau ei drafod gyda'i gilydd. Mae'r gweithgarwch dysgu ar y cyd hwn yn helpu atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o'r strategaethau y gallant eu defnyddio i wella eu medrau datgodio a'u rhuglder wrth ddarllen. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen dan arweiniad bwriadus gydag ymarferwyr. Pan gânt eu cynllunio'n dda, mae'r sesiynau hyn yn helpu dysgwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r testun. Er enghraifft, maent yn dysgu ystyr geiriau anghyfarwydd ac yn dwysau eu dealltwriaeth o nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol.



	destunau llafar cyfarwydd ac anghyfarwydd.			
Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol.	Rwy'n gallu gwrando ar eraill a deall y gallan nhw fod â safbwynt gwahanol i mi.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi ar safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi ar safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol gan ddefnyddio'r safbwyntiau i gyrraedd fy nghasgliadau fy hun.	Rwy'n gallu gwrando gydag empathi, gan barchu safbwyntiau gwahanol bobl, ac rwy'n gallu gwerthuso'r safbwyntiau hyn yn feirniadol er mwyn cyrraedd fy nghasgliadau ystyriol fy hun.
Rwy'n gallu mwynhau rhannu llyfrau a deunyddiau darllen a'u trin fel darlennydd. Rwy'n gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen. Rwy'n gallu segmentu a chyfuno.	Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffemffonem wrth ddarllen. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr.	Rwy'n gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth i mi eu deall. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys gweithio ar draws fy ieithoedd. Rwy'n gallu cymharu gwahanol bethau rwy'n eu darllen.	Rwy'n gallu darllen ystod o destunau gan ddewis strategaethau i'w deall nhw ac i wella fy mynegiant a chyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i grynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth er mwyn deall testunau'n fanwl.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi ystyr ar draws ystod eang o destunau, a thrwy hyn gyfoethogi fy mynegiant a chyfathrebu.



Beth yw 'strategaethau darllen'?

- **Cam cynnydd 1**: 'Rwyn gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen'

e.e. llythrennau unigol / geiriau cytsain – llafariad – cytsain / cytseiniaid clwm, e.e. cl, dr, br / llafariaid clwm, e.e. ae, wy, ei / dechrau adnabod geiriau aml eu defnydd

- **Cam Cynnydd 1**: 'Rwyn gallu segmentu a chyfuno'


e.e.

m + a + e = mae

d + y + m + a = dyma



Beth yw 'strategaethau darllen'?



- **Cam Cynnydd 2:** 'Rwyn gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen'
e.e. cyfateb swm llythyren neu glwstwr o lythrennau gyda'r print gweledol
- **Cam Cynnydd 2:** 'Rwyn gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhugler cynyddol'
*e.e. adnabod geiriau aml eu defnydd / adnabod rhan o eiriau, e.e. olwyn / **olwynion***
- **Cam Cynnydd 2:** 'Rwyn gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr'
e.e. defnyddio'r cyd-destun / ydy'r gair yn debyg i air arall? / beth yw'r thema? / beth sy'n gwneud synnwyr? / oes cliw ar y dudalen? e.e. llun / is-deitl / graff / deigram

Beth yw 'strategaethau darllen'?

- **Cam Cynnydd 3:** 'Rwyn gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi mwyaf o gymorth i mi eu deall. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys gweithio ar draws 'fy ieithoedd'

e.e. adnabod patrymau, e.e. geiriau unigol / a lluosog / teuluoedd geiriau / ystyr geiriau Cymraeg / Saesneg, darllen teitlau / is-deitlau, edrych ar luniau

- **Cam Cynnydd 3:** 'Rwyn gallu cymharu gwahanol bethau rwyn eu darllen'

e.e. testun ffeithiol / testun ffuglen / stori a cherdd, a.y.y.b.



Rhoi help llaw ...

- Beth allwn ni wneud pan fod gair yn anodd i'w ddarllen?



Rhoi 'Darllen Grwp' ar waith ...

- Rhannwch ddisgyblion i grwpiau o 4 i 6 disgybl.
- Gwnewch yn siwr eu bod o'r un gallu darllen.
- Dewisiwch destun fydd yn apelio atynt.
- Ystyriwch: Pa gwestiynau fydd yn addas i'w gofyn am y testun, wrth ddatblygu eu sgiliau darllen?
- Wrth ddarllen, dangoswch a dysgwch strategaethau fydd yn eu helpu wrth ddatblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol.

Rhoi 'Darllen Grwp' ar waith ...

- Mewn gwirionedd, gallwch ddewis unrhyw destun ar gyfer y sesiwn darllen grwp
- Ond, cofiwch ddewis testun sy'n mynd i roi digon o gyfleoedd i drafod y cynnwys a **datblygu sgiliau darllen** y disgyblion.

